# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Alun Davies AC
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Llywodraeth Cymru

30 Ionawr 2012

Annwyl Alun,

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin – Ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin**

Fel y gwyddoch, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y PAC yn ystyried effaith y diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar Gymru. Rydym yn awr yn ysgrifennu atoch i nodi'r casgliadau cychwynnol, a'n hargymhellion.

Dim ond cam cyntaf yr ymchwiliad yw hwn, ac mae'n rhoi braslun o'n safbwyntiau cychwynnol. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa tra bo'r trafodaethau'n mynd rhagddynt, gan fanteisio ar bob cyfle i ddylanwadu ar y canlyniad terfynol. Bydd hyn yn cynnwys cymryd tystiolaeth gan Weinidog y DU yn ystod tymor y gwanwyn ac ymweld â Senedd Ewrop i drafod ein casgliadau ac i wneud yn fawr o bob cyfle i ddylanwadu ar y trafodaethau.

Rydym hefyd yn ysgrifennu at Senedd Ewrop i dynnu sylw at y rhannau hynny o'r cynigion deddfwriaethol y credwn y dylid cyflwyno gwelliannau penodol iddynt. Mae copi o'r ohebiaeth hon wedi'i hamgáu. Yn ogystal â hyn, byddwn yn rhannu'r casgliadau gyda chyrff eraill sydd â diddordeb gan gynnwys deddfwrfeydd datganoledig yn y DU, San Steffan, CALRE a rhwydweithiau eraill yr UE a grwpiau eraill sydd â diddordeb.

Ein prif flaenoriaethau yw sicrhau:

- bod trefniadau digonol a theg ar waith yn ystod y cyfnod pontio cyn i wledydd fabwysiadu'r taliadau'n seiliedig ar arwynebedd;
- bod y cynigion gwyrdd yn ddigon hyblyg i bob aelod-wladwriaeth / rhanbarth unigol fedru eu haddasu'n ôl eu cyd-destun amgylcheddol ac amaethyddol nhw;


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

E-bost / Email: ES.comm@cymru.gov.uk

- bod cyllid Datblygu Gwledig yn cael ei ddosbarthu'n deg;
- bod Llywodraeth Cymru yn cwblhau digon o waith modelu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y trafodaethau, ac ar gyfer datblygu ffyrdd o roi'r cynigion ar waith.

Hyderwn y bydd ein casgliadau'n ddefnyddiol i'ch trafodaethau ar y PAC, ac edrychwn ymlaen at glywed eich barn am ein casgliadau a'n hargymhellion cychwynnol.

Yn gywir

**Vaughan Gething**
**Cadeirydd**

# Prif Ganlyniadau ymchwiliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y PAC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## RHEOLIAD TALIADAU UNIONGYRCHOL

## MEYSYDD ALLWEDDOL SY'N PERI PRYDER:

### Y cynllun taliadau sylfaenol (Erthyglau 18-22)

Rydym yn rhannu'ch pryderon am y trefniadau pontio wrth symud tuag at daliadau'n seiliedig ar arwynebedd a'r modd y bydd hynny'n effeithio ar Gymru. Roedd y rhai a  roddodd dystiolaeth ysgrifenedig a / neu lafar yn pryderu am hyn hefyd.

Diolch i chi am y wybodaeth ychwanegol am y gwaith modelu y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Gofynnwn ichi barhau â'r gwaith hwn, a rhannu'r canlyniadau â ni a rhanddeiliaid eraill yn amserol.

Rydym yn cynnig bod Senedd Ewrop yn newid y cynigion deddfwriaethol i ddarparu ar gyfer cyfnod pontio o saith mlynedd. Rydym hefyd yn pwysleisio na ddylai'r cynigion deddfwriaethol nodi unrhyw flwyddyn benodol, fel y gwneir yn y drafft presennol, ond y dylent nodi bod angen cwblhau'r cyfnod pontio o fewn cyfnod penodol a gytunir. Os bydd y cynigion yn dal yn nodi dyddiad penodol, rydym yn pryderu y gallai unrhyw oedi cyn cymeradwyo'r cynigion deddfwriaethol leihau'r cyfnod sydd ar gael i aelod-wladwriaethau / rhanbarthau baratoi ar gyfer y system taliadau'n seiliedig ar arwynebedd.

Hefyd, rydym am weld y newidiadau yn ystod y cyfnod pontio'n cael eu cyflwyno'n arafach. Rydym yn teimlo bod newid 40% o'r taliadau sylfaenol yn ystod y flwyddyn gyntaf yn ormod. Credwn y byddai hyn yn amharu'n sylweddol ar y diwydiant. Gan hynny, rydym yn argymell y dylid rhoi digon o hyblygrwydd i'r aelod-wladwriaethau / rhanbarthau unigol benderfynu pa mor gyflym y maent am gyflwyno newidiadau, yn ôl eu hanghenion penodol nhw. Byddai'r holl aelod-wladwriaethau / rhanbarthau'n dal yn gorfod ymuno â'r system taliadau'n seiliedig ar arwynebedd erbyn diwedd y cyfnod pontio o saith mlynedd rydym yn ei awgrymu.

Rydym yn ymwybodol nad yw'r cynigion deddfwriaethol presennol yn nodi pa ranbarthau fydd â'r pwer i ddatblygu taliadau'n seiliedig ar arwynebedd is-ranbarthol. Clywsom gan rai tystion y gallai hynny fod o gymorth i fusnesau yn ystod y cyfnod pontio er bod eraill yn mynegi rhywfaint o bryder am oblygiadau defnyddio model o'r fath. Ymddengys felly fod hwn yn faes y dylai Llywodraeth Cymru ei archwilio ymhellach yn ei gwaith modelu. A bwrw y bydd angen i'r aelod-wladwriaethau roi gwybod i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 1 Awst 2013 am unrhyw fwriad i wneud taliadau is-ranbarthol, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith modelu hwn fel mater o frys.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd egluro ar frys a fydd gan weinyddiaethau rhanbarthol y pŵer i ddatblygu taliadau is-ranbarthol.**

**Os oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer i ddatblygu taliadau'n seiliedig ar is-ranbarthau, rydym yn argymell y dylid cwblhau gwaith modelu i weld a fyddai defnyddio taliadau is-ranbarthol yn ffordd gost effeithiol ac effeithlon o helpu i liniaru effaith trosglwyddo i daliadau'n seiliedig ar arwynebedd. Rydym yn argymell bod canlyniadau'r gwaith modelu hwn yn cael ei rannu â'r Grwp Gorchwyl a Gorffen a rhanddeiliaid PAC eraill erbyn Rhagfyr 2012.**

**Hawliau (Erthyglau 21-22)**

Rydym wedi clywed pryderon gan undebau'r ffermwyr a chyrff eraill sy'n eu cynrychioli, fel NFU Cymru, FUW, CLA a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc ynglŷn â'r y cynigion i ddyrannu hawl i daliadau newydd. Roeddynt i gyd yn pryderu'n benodol am elfennau o'r cynigion gan gynnwys y dyddiad cyfeirio newydd, sef 2014, gyda rhai'n dadlau y gallai hyn arwain at grynhoi tir. Yn ogystal â hyn, roeddynt yn pryderu y byddai newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant amaeth dan anfantais annheg oherwydd y rheol sy'n nodi bod angen iddynt fod wedi gallu hawlio o leiaf un taliad yn 2011 i gymhwyso.

Rydym yn ymwybodol bod Erthygl 23 yn nodi bod yn rhaid defnyddio'r Gronfa Genedlaethol fel mater o flaenoriaeth i ddyrannu hawl i daliadau i ffermwyr ifanc. Fodd bynnag, fel nifer o randdeiliaid, rydym ninnau'n pryderu y bydd hyn yn rhoi newydd-ddyfodiad dilys dros 40 oed dan anfantais. Byddwn yn ystyried hyn ymhellach pan fyddwn yn ystyried cynigion y ffermwyr ifanc.

Clywsom dystiolaeth ddiddorol a chadarn iawn gan Gymdeithas y Tirfeddianwyr, yr FUW a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc am amrywiaeth o wahanol ddewisiadau o ran hawlio taliadau. O gofio y byddai unrhyw ddewis arall o ran hawlio taliadau'n arwain at newidiadau sylweddol posibl yn y diwydiant, nid ydym mewn sefyllfa i argymell unrhyw gynllun penodol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn teimlo y byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru ymchwilio ymhellach i'r cynigion a'r dewisiadau o ran hawlio taliadau.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith modelu i fesur effaith y cynigion presennol yng nghyswllt hawlio taliadau a'r gwahanol ddewisiadau a gyflwynwyd. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod canlyniadau'r gwaith modelu hwn ar gael i randdeiliaid a'r Grwp Gorchwyl a Gorffen erbyn mis Rhagfyr 2012.**

**Taliadau gwyrdd (Erthyglau 29-33)**

Yn y dystiolaeth a glywsom, roedd rhaniad clir rhwng y rhai a oedd yn gefnogol i daliadau gwyrdd o ran egwyddor a'r rhai a oedd yn fwy amheus. Fodd bynnag, roedd yr holl ymatebwyr bron yn anfodlon â'r cynigion fel y'u drafftiwyd, ac roeddynt am weld newidiadau sylweddol. Mae hyn yn flaenoriaeth allweddol i'r Grwp Gorchwyl a Gorffen.

Rydym yn cytuno â'r holl ymatebwyr fod y cynigion presennol, fel y'u drafftiwyd, yn anymarferol. Mae'n prif bryderon yn ymwneud â'r amodau'n ymwneud â'r:

- diffiniad o borfa barhaol;
- gofynion cylchdroi cnydau
- gofyniad bod angen i 7% o'r tir fod yn ardal ecolegol (EFA)

Nid ydym yn teimlo'u bod yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gwahaniaeth rhwng yr aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau unigol o ran hinsawdd amgylcheddol a chyd-destun amaethyddol.

Dywedodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru wrthym y gallai'r gofynion presennol arwain, o bosibl, at sefyllfaoedd disynnwyr yng Nghymru. Roedd nifer o'r tystion o'r un farn. Er enghraifft, ni fyddai'r diffiniad o Ardal Ecolegol yn cynnwys rhai tiroedd yng Nghymru sydd â budd amgylcheddol, fel tir fferm nad yw'n gynhyrchiol.

O ystyried y dystiolaeth a glywsom, rydym yn teimlo bod dadl gref dros ehangu'r dewisiadau gwyrdd, a chynnig mwy o hyblygrwydd i ffermwyr unigol fedru dewis bodloni'r gofynion gwyrdd yn y ffordd sydd fwyaf addas i'w fferm nhw, ac i gyd-destun amgylcheddol eu fferm. Mae'n hanfodol felly fod yr aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau'r cael mwy o hyblygrwydd nag a gynigir yn y cynigion presennol i sicrhau bod y gofynion gwyrdd yn addas ar gyfer anghenion amgylcheddol ac amaethyddol penodol eu hardal. A bwrw bod cysondeb drwy'r aelod-wladwriaethau yn rhan bwysig o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, rydym yn argymell y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd greu fframwaith sy'n cwmpasu'r blaenoriaethau i ganiatáu i'r aelod-wladwriaethau/rhanbarthau ddewis o gyfres o ddewisiadau gwyrdd sy'n berthnasol iddyn nhw.

Rydym yn croesawu'ch cynnig i eithrio ffermwyr sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol rhag y gofynion gwyrdd, yn yr un modd ag y mae'r cynigion yn eithrio ffermwyr organig. Rydym yn deall y byddai angen sicrhau lefel wrthrychol o fudd amgylcheddol. Er ein bod yn cydnabod pryderon rhai rhanddeiliaid y byddai hyn yn creu problemau o ran talu ddwywaith am yr un peth, rydym yn credu bod yr awgrym hwn yn haeddu ystyriaeth bellach ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio ymhellach i'r cynnig hwn gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Yn ogystal â hyn, byddwn yn ei gynnig fel gwelliant posibl.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth glir yn y trafodaethau i'r angen i roi mwy o hyblygrwydd i'r aelod-wladwriaethau / rhanbarthau o ran y gofynion gwyrdd. Dylid bodloni'r gofynion gwyrdd mewn modd sy'n addas i anghenion amgylcheddol ac amaethyddol lleol a hynny o fewn fframwaith cyffredin o flaenoriaethau Ewropeaidd cyson.**

**MEYSYDD ERAILL:**

**Hyblygrwydd rhwng y colofnau (Erthygl 14)**

Clywsom wahanol safbwyntiau am ganiatáu i'r aelod-wladwriaethau drosglwyddo arian o Golofn 1 i Golofn 2, ac i'r aelod-wladwriaethau cymwys, gan gynnwys y DU, drosglwyddo arian o Golofn 2 i Golofn 1.

Rydym yn teimlo ei bod yn hanfodol bwysig i'r rhanbarthau, yn ogystal â'r aelod-wladwriaethau fod â'r pŵer i drosglwyddo arian o'r naill golofn i'r llall. Rydym yn teimlo bod yn rhaid i'r cynigion nodi'n glir bod yr hyblygrwydd hwn ar gael i'r rhanbarthau. Nodwn fod y gallu i drosglwyddo arian o Golofn 1 Golofn 2 wedi bod yn hanfodol i Lywodraethau'r DU a Chymru sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer datblygu gwledig, gan fod y swm a ddyrannwyd i'r DU ar gyfer datblygu gwledig yn y gorffennol wedi bod yn isel (byddwn yn dychwelyd at y mater hwn yn ddiweddarach).

Roedd bron yr holl dystiolaeth a glywsom yn nodi y dylai'r hyblygrwydd i drosglwyddo arian barhau i fod yn ddewis gwirfoddol ac rydym yn cytuno â'r farn honno.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd esbonio a fydd y rhanbarthau'n cael y pŵer o drosglwyddo arian o'r naill golofn i'r llall.**

**Cymorth i ardaloedd sydd â chyfyngiadau naturiol (Erthyglau 34-35)**

Roedd cytundeb cyffredinol yn y dystiolaeth a gawsom y galli hyn fod yn ddefnyddiol, ond y dylai barhau'n ddewis gwirfoddol yn hytrach na'n orfodol. Byddwn yn pwysleisio hyn yn ein gohebiaeth â Senedd Ewrop.

**Ffermwyr Ifanc (Erthyglau 36-37)**

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r gefnogaeth a gynigiwyd i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant amaethyddol. Fodd bynnag, clywsom fod y cynigion presennol, sy'n diffinio ffermwyr ifanc fel pobl dan 40 oed, yn rhoi newydd-ddyfodiad dilys dros 40 oed dan anfantais. Rydym yn teimlo y dylid cefnogi ac annog pob newydd-ddyfodiad i'r diwydiant amaethyddol. Roedd cyrff fel y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn awyddus i sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bawb sydd am ddechrau gweithio yn y diwydiant amaethyddol, waeth faint yw eu hoed, ac rydym yn cytuno â nhw. Byddwn yn awgrymu wrth Senedd Ewrop eu

bod yn ystyried dileu Erthygl 36.2(b) er mwyn sicrhau bod y cynllun yn rhoi cymorth i newydd-ddyfodiad o bob oed.

**Cymorth cysylltiedig (Erthygl 38-39)**

Rydym yn ymwybodol y gallai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio cymorth cysylltiedig i helpu'r cynhyrchwyr hynny y bydd y taliadau newydd yn seiliedig ar arwynebedd yn effeithio'n andwyol arnynt. Roedd y dystiolaeth a glywsom o blaid parhau â chymorth cysylltiedig fel ffordd o liniaru effaith y taliadau newydd. Byddwn yn dweud wrth Senedd Ewrop ein bod o blaid cadw cymorth cysylltiedig, ar yr amod ei fod yn parhau'n ddewis gwirfoddol.

**Cynllun ffermwyr bychain (Erthyglau 47, 48, 49 & 51)**

Dywedodd y grwpiau amgylcheddol ac undebau'r ffermwyr wrthym eu bod yn pryderu am y cynigion ar gyfer cynllun ffermwyr bychain. Roeddynt yn poeni na fyddai'r ffermydd bychain yn gorfod cadw at amodau trawsgydymffurfio, ac y gallai hyn effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd, yn enwedig gan na phennwyd trothwy ar gyfer maint y fferm a fyddai'n gymwys i wneud cais. Yn ogystal â hyn, roedd undebau'r ffermwyr yn pryderu y gallai gosbi ffermwyr mawr sy'n cadw at amodau trawsgydymffurfio. Yn ôl NFU Cymru hefyd, gan na fyddai'r diffiniad o ffermwr actif yn gymwys yn y cyswllt hwn, gallai hynny arwain at lu o geisiadau newydd gan rai nad ffermio yw eu prif incwm.

Rydym yn argymell i Senedd Ewrop y dylai'r Cynllun Ffermwyr Bychain fod yn wirfoddol i'r aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau. Yn ogystal â hyn, byddwn yn argymell gwelliannau i Erthygl 92 yn y 'Rheoliad Llorweddol' i sicrhau bod ffermwyr bychain yn cadw at ofynion trawsgydymffurfio.

**RHEOLIAD DATBLYGU GWLEDIG**

**Cyllideb datblygu gwledig**

Roedd amrywiaeth eang o ymatebwyr, gan gynnwys NFU Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CLlLC ac EAW , yn pryderu am lefel yr arian a gafodd y DU a Chymru ar gyfer datblygu gwledig yn y gorffennol. Roedd yr holl dystion yn amlwg yn awyddus i'r meini prawf dyrannu, sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliad gweithredu, gael eu seilio ar yr arian a wariwyd yn y gorffennol gan yr aelod-wladwriaethau/rhanbarthau unigol ar ddatblygu gwledig, ac i hyn hefyd gynnwys unrhyw arian wedi'i fodiwleiddio. Rydym yn bendant o blaid y cynnig hwn ac yn teimlo y dylai fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru yn ei thrafodaethau.

**Rydym yn argymell y dylai sicrhau tegwch yn y modd y dyrennir arian ar gyfer datblygu gwledig fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU sicrhau nad yw'r DU a Chymru yn parhau i gael llai na neb arall yn yr UE i'w wario fesul hectar ar ddatblygu gwledig.**

**Gwariant sylfaenol ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol**

Rydym yn sylwi fod y rhaglith i'r Rheoliad Datblygu Gwledig yn nodi y dylid gwario isafswm o 25% ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol, ond nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y testunau deddfwriaethol. Byddwn yn argymell i Senedd Ewrop fod hyn yn cael ei gynnwys yn y cynigion deddfwriaethol, i sicrhau cysondeb drwy'r UE.

**Ariannu, rheoli a monitro Rheoliad [Llorweddol] y PAC**

**Symleiddio**

Rydym yn ymwybodol mai un o amcanion craidd y Comisiwn Ewropeaidd o safbwynt y cynigion newydd, yw symleiddio'r PAC. Roedd nifer o randdeiliaid allweddol yn teimlo'n bur rhwystredig nad yw'r cynigion presennol yn manteisio ar y cyfle i wneud hynny. Mae'r gwelliannau rydym yn eu cynnig yn ystyried yr angen i symleiddio'r PAC ac rydym yn gobeithio y byddant yn helpu i gyfrannu at y broses hon.

Rydym yn cytuno â'r dystiolaeth a glywsom fod angen gwneud rhagor i symleiddio'r rheoliadau. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithio i sicrhau nad oes unrhyw fiwrocratiaeth a rhwystrau diangen yn wynebu ffermwyr Cymru.

Roedd Cymdeithas y Tirfeddianwyr yn pryderu am roi systemau cosbi a rheoli ar waith yng Nghymru. Yn ôl y Gymdeithas, dylai Llywodraeth Cymru ofalu nad ydynt yn gosod safonau rhy uchel wrth ddehonglio'r rhain. Er enghraifft, dywedodd y Gymdeithas wrthym am y Rheoliad Ewropeaidd ynghylch symud da byw, sy'n nodi bod angen rhoi gwybod am symudiadau gwartheg cyn pen 3 i 7 diwrnod. Yng Nghymru, fodd bynnag, mae'n rhaid, rhoi gwybod am y symudiadau cyn pen 3 diwrnod. Roeddynt yn pwysleisio na ddylid gosod y safon mor uchel y bydd ffermwyr Cymru yn siŵr o fethu.

Dywedodd tystion fel FWAG a Chymdeithas y Pridd y gallai'r cynlluniau sicrwydd presennol fod yn gyfrwng i gyflwyno system reoli gymesur sy'n seiliedig ar risg. Rydym yn teimlo y byddai'n werth ystyried hyn ymhellach. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau rheoli a chosbi call a chymesur yn cael eu hystyried wrth roi'r PAC ar waith.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth iddi ddehongli a gweithredu'r systemau rheoli a chosbi sy'n gysylltiedig ag arian y PAC, yn sicrhau bod y systemau hynny'n gymesur ac yn seiliedig ar risg.**

**Trawsgydymffurfio (Erthyglau 91-95) a Rheolau Trawsgydymffurfio Atodiad II**

Fel y nodwyd yn gynharach, byddwn yn awgrymu wrth Senedd Ewrop y dylid cyflwyno gwelliant i'r rheoliadau trawsgydymffurfio i sicrhau bod ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun ffermwyr bychain yn gorfod cadw at amodau trawsgydymffurfio.

Ar hyn, dywedodd NFU Cymru eu bod yn pryderu am effaith y diffiniad o Bridd Llawn Carbon ar ffermwyr Cymru. Roeddynt yn pryderu y gallai'r gwaharddiad arfaethedig ar aredig gyfyngu'n sylweddol ar y cyfleoedd i ffermwyr da byw a ffermwyr llaeth. Hefyd, gan nad yw llawer o'r tir yng Nghymru'n cael ei ddiffinio fel tir âr, byddai hyn yn cael cryn effaith ar ffermwyr Cymru.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd egluro'r diffiniad o Bridd Llawn Carbon ac egluro a fyddai'r diffiniad yn arwain at wahardd aredig ar dir nad yw'n cael ei ddiffinio fel tir âr.**

Ar hyd o bryd, rydym yn cytuno â safbwynt Llywodraeth y DU, fel y'i hamlinellir yn ei Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y dylid adfer y Gofynion Rheoli Statudol i ddiogelu adar a phlanhigion. Rydym, fodd bynnag, yn bwriadu clywed rhagor o dystiolaeth yn ystod cam nesaf ein hymchwiliad, ac mae'n bosibl y byddwn yn ailystyried ein safbwynt yn dilyn hynny.